

Taflen 4

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Taflen Waith y Myfyrwyr

Tasg 1

Ysgrifennwch enghreifftiau o'r cwestiynau y gallech eu gofyn, neu ddarnau o wybodaeth y gallai fod eu hangen arnoch, cyn dal rhywun yn gyfrifol am ddrwgweithredu. Ceisiwch ddarparu o leiaf tair enghraifft. (Sylwer: Efallai y byddai'n ddefnyddiol meddwl am adeg pan gawsoch chi eich dal yn gyfrifol am rywbeth a pham.)

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg 2

Darllenwch fywgraffiad Ellen Kerry Davis ac yna gwyliwch fideo byr lle mae Ellen yn disgrifio rhai o'i phrofiadau o fod yn blentyn Iddewig yn yr Almaen, yn y 1930au (**Clip 1**).

Bywgraffiad Ellen Kerry Davis.

Ganed Ellen Kerry Davis ar 1 Medi 1929 yn nhref Hoof yn Kassel, yr Almaen. Fe'i magwyd mewn teulu Iddewig Uniongred ac roedd ei thad yn gweithio ym musnes y teulu (siop cigydd Iddewig). Cafodd y teulu eu gwahardd o'r busnes hwn a rhag ennill bywoliaeth gan ddeddfau gwrth-Iddewig y llywodraeth Natsiaidd yn ystod y cyfnod cyn y rhyfel. Atafaelwyd cartref Ellen gan y Natsiaid a gorfodwyd y teulu i fyw mewn un ystafell yn synagog y dref. Ym 1937, pan oedd Ellen yn wyth oed, llosgodd grŵp o ieuenctid y Natsiaid y synagog yn y nos ac ymosod ar y teulu â brics. Cawsant eu hachub a'u cuddio gan deulu lleol nad oedd yn Iddewon. Carcharwyd tad Ellen yng ngwersyll crynhoi Dachau ond dihangodd wedi hynny ac ymuno â Chorfflu'r Arloeswyr (Pioneer Corps) ac yn ddiweddarach bu'n byw yn Awstralia. Ar 30 Mehefin 1939, aeth Ellen ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig a chafodd ei mabwysiadu gan gwpl oedrannus, di-blant yn Abertawe. Ym mis Rhagfyr 1941, cafodd mam Ellen a chwe brawd a chwaer (yr hynaf yn 11 oed, yr ieuengaf yn ddwy) eu halltudio i Riga a chawsant eu saethu a'u lladd wrth gyrraedd gan y Natsiaid (neu eu cydweithredwyr).



Taflen 4

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Taflen Waith y Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau canlynol:

Yn ei thystiolaeth fideo, mae Ellen yn disgrifio ymddygiad ei ffrindiau tuag ati ar ôl i Hitler ddod i rym. Beth yw eich barn chi am hyn? Pa esboniadau posibl a allai fod am newid o'r fath mewn ymddygiad?

.....

.....

.....

.....

Yn ei thystiolaeth fideo, mae Ellen yn disgrifio sgwrs rhwng ei thad a ffrind i'r teulu.

(a) Pa gymhellion sydd gan ffrind y teulu i egluro ei ymddygiad tuag at deulu Ellen?

.....

.....

.....

(b) Yn eich barn chi, a yw ffrind y teulu yn wylwr, neu'n gyflawnwr yr Holocost – neu dim un o'r ddau? Eglurwch eich ateb.

.....

.....

.....

Yn eich barn chi, pa effaith gafodd ymddygiad eu ffrindiau a'u cymdogion ar Ellen a'i theulu?

.....

.....

.....



Taflen 4

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Taflen Waith y Myfyrwyr

Tasg 3

Gan weithio mewn paruau, darllenwch **Daflen 1**, sy'n egluro rhai materion allweddol yn ymwneud â chwrs yr Holocaust yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Dylai un ohonoch ddarllen y darn cyntaf 'Einsatzgruppen: Trosolwg' ac edrych ar **Fap 1**. Dylai'r llall ddarllen yr ail ddarn 'Ateb Terfynol: Trosolwg' ac edrych ar **Fap 2**.

Yna trafodwch gyda'ch gilydd yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'ch darllen.

Nesaf, darllenwch y **crynodeb byr canlynol o hanes y ghetto yn Riga, Latfia**.¹

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, crynhodd y Natsïaid ac awdurdodau meddiannaeth Almaenig eraill boblogaethau Iddewig mewn ghettos. Roedd amodau byw yn ddiiflas. Roedd ghettos yn aml yn ardaloedd caeedig a oedd yn ynysu cymunedau Iddewig. Bu farw mwyafrif helaeth trigolion ghetto o afiechyd, newyn, saethu neu alltudiaeth i ganolfannau lladd.

Ganol mis Awst 1941, gorchynnodd yr Almaenwyr sefydlu ghetto yn ardal dde-ddwyreiniol dinas Riga; seliwyd y ghetto hwn ym mis Hydref 1941, gan garcharu rhyw 30,000 o Iddewon. Ar ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr 1941, cyhoeddodd yr Almaenwyr eu bod yn bwriadu setlo'r mwyafrif o drigolion ghetto 'ymhellach i'r dwyrain'. Ar 30 Tachwedd a 8-9 Rhagfyr, saethwyd o leiaf 25,000 o Iddewon o ghetto Riga gan SS yr Almaen ac unedau heddlu a'u cynorthwywyr o Latfia yng Nghoedwig Rumbula gerllaw.

Nawr gwyliwch **Glip 2** o dystiolaeth fideo gan Ellen Kerry Davis.

Yna, gan weithio mewn paruau, atebwch y cwestiynau canlynol:

Beth mae'r mapiau yn **Nhaflen 1** yn ei ddweud wrthyhch am ddaearyddiaeth yr Holocaust?

.....

.....

.....

Pa bwysau a chymhellion posibl a allai fod wedi effeithio ar gydweithwyr lleol i erlid a llofruddio sifiliaid diniwed?

.....

.....

.....

¹ United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Riga* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/riga>> [cyrchwyd 13 Mehefin 2022].



Taflen 4

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Taflen Waith y Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

Dewch o hyd i'r Almaen a Riga ar un o'r mapiau yn **Nhaflen 1**.

(a) Pa fathau o bersonél an-filwrol (a pha genhedloedd) sy'n debygol o fod wedi bod yn gysylltiedig ag alltudio mam a brodyr a chwiorydd Ellen?

.....

.....

.....

(b) Ystyriwch yr holl weithwyr a gymerodd ran yn broses o symud miliynau o bobl ledled Ewrop fel rhan o'r 'Ateb Terfynol'. Sut y dylid gwerthuso a barnu gweithredoedd yr unigolion hyn heddiw?

.....

.....

.....

A yw'r ffynonellau yn **Nhasgau 2 a 3** yn awgrymu mai digwyddiad unigol digymell oedd yr Holocaust? Os na, pam ddim a pha gwestiynau y gallai hyn eu codi am gyfrifoldeb y rhai a gymerodd ran neu'r rhai a welodd ddigwyddiadau?

.....

.....

.....

.....

.....

.....



Taflen 4

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Taflen Waith y Myfyrwyr

Tasg 4

Gan weithio mewn parau, darllenwch **Daflen 2**, sy'n rhoi cyflwyniad byr i'r treialon ar ôl y rhyfel o rai o'r rhai a gyflawnodd droseddau'r Natsïaid. Dylai un ohonoch ddarllen adran A: **Trosolwg o Dreialon ar ôl y Rhyfel**. Dylai'r llall ddarllen adran B: **Detholiad o Drafodion Nuremberg Dilynol: Achos Yr Einsatzgruppen (Achos #9) - Unol Daleithiau America v. Otto Ohlendorf et al.**

Yna trafodwch gyda'ch gilydd yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'ch darllen. Gan weithio yn eich parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau isod.

A oes unrhyw amgylchiadau lle mae'n ganiataol neu'n angenrheidiol i berson anufuddhau i naill ai gorchymyn gan ffigwr awdurdod neu gyfraith gwlad?

.....

.....

Gwrthododd y barnwyr yn Nuremberg yr amddiffyniad 'dilyn gorchmynion'. O'r detholiadau achos yn **Nhaflen 2**, pa dystiolaeth neu ddadleuon y dibynnwyd arnynt, yn rhannol, i wrthod yr amddiffyniad hwn?

.....

.....

.....

.....

Ar wahân i gosbi'r cyflawnwyr a oedd yn euog o droseddau erchyll yn ystod yr Holocaust, beth allai fod wedi bod diben neu effaith y treialon ar ôl y rhyfel?

.....

.....

.....

.....

.....



